

Canllawiau mewn perthynas â chyfarfod â'ch ymgeiswyr yn yr etholiad

Ydych chi'n meddwl tybed sut i sicrhau cyfarfod gyda'ch ymgeisydd yn yr etholiad? Mae gennym gynllun.

27 Mai 2024

Cyn yr etholiad cyffredinol nesaf ar 4 Gorffennaf, mae'n bwysig cwrdd â'ch ymgeiswyr lleol. Cewch gyfle i ofyn iddynt gefnogi ein hymgyrchoedd a blaenoriaethu gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd, natur a chostau byw os cânt eu hethol.

Byddwch yn gallu darganfod eu safbwynt ar faterion cyfiawnder hinsawdd allweddol ac adeiladu perthnasoedd ar gyfer ymgyrchu yn y dyfodol.

Gweithio ochr yn ochr ag eraill

Wrth i wleidyddion ac eraill geisio ein rhannu trwy ledaenu chwedlau am weithredu ar faterion hinsawdd, mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda'n gilydd yn ein cymunedau i fod yn unedig yn ein galw am gyfiawnder hinsawdd. Rydym yn argymhell eich bod yn gweithio gydag eraill i sicrhau cyfarfod gyda'ch ymgeiswyr yn yr etholiad. Ar lefel leol, gallai hyn gynnwys grwpiau, sefydliadau a busnesau cymunedol eraill.

Po fwyaf amrywiol a chynrychioliadol yw'r bobl a'r grwpiau rydych chi'n cydweithio â nhw, y mwyaf tebygol yw y bydd eich ymgeiswyr yn gwranddo, a'r mwyaf llwyddiannus y byddwch chi.

Cyn trefnu cyfarfodydd gydag ymgeiswyr, gallech ddechrau drwy estyn allan i grwpiau eraill, fel y gallwch fynd at yr ymgeiswyr gyda'ch gilydd. Os ydych eisoes wedi cynllunio'r cyfarfod, mae amser o hyd i roi gwybod i eraill amdano a'u gwahodd i ymuno.

[Darganfyddwch fwy am weithio gyda chynghreiriaid lleol.](#)

Efallai y byddwch hefyd eisiau llunio deiseb neu lythyr agored ymlaen llaw fel y gallwch gasglu llofnodion a'u cyflwyno i'ch ymgeisydd yn y cyfarfod. Rydym wedi llunio [templod Rhwydwaith Gweithredu](#) defnyddiol i chi wneud hyn. Cysylltwch â ni ar community@foe.co.uk os hoffech ddefnyddio'r templod hwn.

Gwahoddwch eich ymgeiswyr i gyfarfod

Darganfyddwch pwy yw eich ymgeiswyr yn yr etholiad trwy roi eich côd post i mewn i whocanivotefor.co.uk Nodyn: Efallai na fydd rhai ymgeiswyr yn cael eu cyhoeddi tan 7 Mehefin.

Rydym wedi drafftio [templed o e-bost](#) y gallwch ei ddefnyddio i ofyn i ymgeiswyr am gyfarfod. Rydym wedi gadael lle i chi deilwra'r e-bost fel y gallwch ganolbwyntio ar y pryderon amgylcheddol sydd bwysicaf i'ch grŵp a'ch partneriaid lleol. Fel y byddech chi'n ei ddisgwyl, mae ymgeiswyr yn brysur iawn yn ystod cyfnod yr etholiad, felly ceisiwch fod yn hyblyg ynghylch dyddiadau.

Lleoliadau

Bydd gan lawer o ymgeiswyr bencadlys a fydd yn gweithredu fel lleoliad naturiol ar gyfer eich cyfarfod. Yn absenoldeb Pencadlys, gall caffi lleol (os nad yw'n rhy brysur) neu hyd yn oed eich llyfrgell leol weithio'n dda fel lle i gyfarfod. Os oes lleoliad penodol sy'n berthnasol i ofynion eich ymgyrch, fel afon sydd angen ei glanhau neu brosiect ynni cymunedol, efallai yr hoffech wahodd eich ymgeisydd yno. Gallech hefyd ystyried cynnal eich cyfarfod ar-lein. Gall hyn olygu bod mwy o bobl yn gallu mynychu a bydd eich ymgeisydd yn gallu clywed gan ystod amrywiol o leisiau. [Edrychwch ar ein canllaw i ddefnyddio Zoom i'ch helpu i baratoi.](#)

Agenda ar gyfer y cyfarfod

Yn ystod y cyfarfod, gallwch ddefnyddio ein gofynion ar gyfer yr etholiad cyffredinol i strwythuro'r drafodaeth. Mae'r gofynion hyn yn nodi'r camau brysur y mae angen i bob plaid wleidyddol eu cymryd mewn perthynas â'r hinsawdd a natur.

Efallai y byddwch am redeg drwy'r rhestr yn systematig yn eich cyfarfod, neu os ydych chi'n poeni am redeg allan o amser, beth am flaenoriaethu'r rhestr wirio a dewis y materion amgylcheddol sy'n cyd-fynd fwyaf â'r pryderon sydd gennych ar gyfer eich ardal?

Cynllun gweithredu hinsawdd newydd uchelgeisiol sy'n cyflawni ein haddewid bydeang i helpu i atal newid trychinebus yn yr hinsawdd

Mae Cyfeillion y Ddaear yn ymgyrchu am i'r llywodraeth nesaf ysgrifennu cynllun hinsawdd newydd sy'n bodloni addewid Llywodraeth y DU i sicrhau lleihad o dros ddwy ran o dair mewn allyriadau erbyn 2030.

Rhaid i gynllun gweithredu hinsawdd newydd y DU fod yn ddigon credadwy, uchelgeisiol a brys i sicrhau bod y DU yn cyflawni ac yn rhagori ar ei nod hinsawdd byd-eang hanfodol a thargedau cenedlaethol sy'n gyfreithiol rwymol gyda thoriadau dwfn i allyriadau carbon niweidiol erbyn 2030.

Rhaid i gynllun gweithredu hinsawdd newydd ddarparu swyddi gwyrdd tymor hir, sicrhau diwydiannau Prydain, a diogelu a chefnogi gweithwyr. Yn y cyfarfod, gallwch ofyn i ymgeiswyr helpu i sicrhau bod y llywodraeth nesaf yn cyflawni hyn os cânt eu hethol.

Dyma rai enghreifftiau o gwestiynau y gallech eu gofyn:

- Nid yw'r Deyrnas Unedig ar y trywydd iawn i gyflawni ei haddewid a'i chyllidebau carbon yn 2030. A wnewch chi gefnogi ein hymgyrch dros gynllun hinsawdd newydd sy'n bodloni ein targedau hinsawdd tra'n rhannu'r costau a'r buddion yn deg?
- Mae'r cyhoedd eisiau mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, ond mae llawer yn cael trafferth gyda chostau byw. Sut fydd ymgeiswyr yn annog y llywodraeth nesaf i wneud opsiynau carbon isel yn fforddiadwy ac yn hygyrch i bawb?

Trwsio cartrefi yn y Deyrnas Unedig sy'n gollwng gwres

Fwy na 2 flynedd ers dechrau'r argyfwng ynni, mae miliynau o bobl yn dal i gael trafferth fforddio gwresogi eu cartrefi ac mae effeithiau iechyd cartrefi oer, llaith yn costio degau o filiynau o bunnoedd i'r GIG. Byddai buddsoddi mewn inswleiddio ac effeithlonrwydd ynni yn creu swyddi gwyrdd, yn lleihau ein biliau ynni ac yn lleihau allyriadau.

Felly, credwn fod angen i'r llywodraeth nesaf ymrwymo i fuddsoddi o leiaf £6 biliwn y flwyddyn ar gyfartaledd mewn rhaglen frys i inswleiddio ein cartrefi sy'n gollwng gwres. Rydym yn galw ar y llywodraeth i gyflwyno rhaglen inswleiddio gyflym fesul stryd, wedi'i chydlynu gan gynghorau. Dylai hyn ddechrau gyda'r cymdogaethau sydd wedi'u taro galetaf gan yr argyfwng a chael ei ddarparu am ddim mewn ardaloedd lle mae pobl yn byw ar incwm isel.

Yn ystod y cyfarfod, mae'n bwysig rhannu pam mae eich cymuned yn poeni am y mater hwn a dod â safbwynt grwpiau cymunedol eraill i mewn os gallwch.

Er mwyn sicrhau ymrwymiad gan ymgeisydd yr etholiad ar y gofynion hyn, gallwch ofyn i ymgeiswyr lofnodi'r addewid cartrefi cynnes.

Os na fydd eich ymgeisydd yn llofnodi'r addewid, gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn iddynt pam ddim a pha beth arall y byddent yn ei wneud yn eu 3 mis cyntaf pe baent yn cael eu hethol, er mwyn sicrhau bod y llywodraeth yn cymryd y camau brys sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r argyfwng ynni.

Gallwch hefyd ofyn i ymgeiswyr ddangos cefnogaeth mewn ffyrdd eraill, gan gynnwys:

- Rhannu cefnogaeth i'r ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft, gallech dynnu llun ohonynt a'ch grŵp yn dal [placardiau Unedig dros Gartrefi Cynnes](#) i'w rhannu ar eu sianeli cyfryngau cymdeithasol. Neu [rhannwch y ddelwedd hon](#) gyda neges o gefnogaeth ar gyfer gweithredu brys ar inswleiddio.
- Codi'r mater yn y senedd drwy gyflwyno cwestiynau ar bapur neu ar lafar am yr angen i inswleiddio.
- Ysgrifennwch at arweinydd eu plaid gan ddefnyddio'r [llythyr templed hwn](#).

Diwedd i'r sgandal carthion a gweithredu i lanhau'r llygredd yn y dŵr a'r aer sy'n niweidio ein hiechyd ac yn bygwth ein dyfrffyrdd, bywyd gwyllt a natur

Mae Cyfeillion y Ddaear yn ymgyrchu i lywodraeth y DU basio Deddf Hawliau Amgylcheddol. Mae hon yn gyfraith sy'n cydnabod yr hawl i amgylchedd iach fel hawl dynol. Byddai ymgorffori'r hawl i amgylchedd iach yng nghyfraith y DU yn rhoi'r pŵer i gymunedau ddal cwmnïau a llywodraeth yn gyfreithiol atebol am weithgareddau llygru yn lleol ac am wella mynediad at fuddion iechyd a lles manau gwyrdd a choed.

Dyma ychydig o gwestiynau y gallech eu gofyn yn y cyfarfod i ddarganfod pa gamau y bydd yr ymgeisydd yn ymrwymo iddynt i sicrhau amgylchedd iach:

- Beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau bod y llywodraeth nesaf yn gwneud yr hyn sydd ei angen i wireddu ymrwymadau rhyngwladol y DU ac yn gwneud amgylchedd iach yn hawl gyfreithiol?
- Mae'n ofnadwy bod y llygredd carthion yn ein hafonydd wedi cymryd cymaint o amser i ddod i'r amlwg. Rwy'n poeni bod diwydiannau mawr eraill yn effeithio ar natur hefyd. Beth fydd eich plaid chi yn ei wneud i sicrhau bod

busnesau'n adrodd ar yr effaith y maent yn eu cael ar natur, a bod y llygrwyr mawr yn talu?

- Beth fydd eich plaid yn ei wneud i atal mwy o blant rhag cael niwed, neu hyd yn oed farw, oherwydd bod eu hamgylchedd lleol mor wenwynig?

Darganfyddwch fwy am lygredd dŵr a'r Ddeddf Hawliau Amgylcheddol.

Gweithredu i sicrhau bod y DU yn chwarae ei rhan mewn ymdrechion byd-eang i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur

Fel rhan o'n hymgyrch Y Blaned yn hytrach nag Elw rydym yn mynnu cyfraith newydd yn y DU a fydd yn dwyn cwmnïau, banciau a chyrff cyhoeddus i gyfrif am unrhyw effeithiau niweidiol yn gymdeithasol ac amgylcheddol a achosir gan eu gweithgareddau, a sicrhau eu bod yn atebol pan fydd niwed yn digwydd.

Dylai hyn gynnwys cyfraith newydd i atal corfforaethau rhag cam-drin yr amgylchedd a hawliau dynol yn eu cadwyni cyflenwi. Rhaid i ni leihau datgoedwigo mewn sincipiau bioamrywiol, carbon fel yr Amazon a'r Cerrado i amddiffyn natur a chymunedau rheng flaen.

Isod mae ychydig o gwestiynau enghreifftiol y gallwch eu gofyn i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn atebol mewn perthynas â'r mater os byddant yn cael eu hethol:

- Beth fyddwch chi'n ei wneud o fewn eich wythnosau cyntaf i hyrwyddo'r angen am y gyfraith hon yn y Senedd ac yn eich plaid?
- A wnewch chi gytuno i gwrdd â ni o fewn eich tri mis cyntaf yn y swydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn rydych chi wedi'i wneud i hyrwyddo'r gyfraith?

Yn ystod y cyfarfod, gallwch hefyd ofyn i'r ymgeisydd:

- Tynnwch lun gydag un o'n [placardiau Y Blaned yn hytrach nag Elw](#).
- Ymrwmo i fynychu dadleuon seneddol, digwyddiadau neu ofyn cwestiynau i orfodi atebolrwydd corfforaethol i fyny'r agenda.

Dysgwch fwy am ein hymgyrch i sicrhau bod y DU yn chwarae ei rhan mewn ymdrechion byd-eang i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Cadoediad brys, llawn a pharhaol yn Gaza

Mewn undod â'n chwaer sefydliad Cyfeillion y Ddaear Palesteina sydd wedi dioddef yn ofnadwy yn y rhyfel yn Gaza, gydag o leiaf 5 aelod wedi'u lladd gan gyrchoedd awyr Israel, rydym yn mynnu:

- Cefnogaeth ar gyfer cadoediad brys, llwyr a pharhaol (nid cadoediad cynaliadwy neu saib dyngarol).
- Adfer cyllid ar unwaith i Asiantaeth Rhyddhad a Gwaith y Cenhedloedd Unedig (UNRWA).
- Rhoi'r gorau ar unwaith i ddarparu arfau i Israel.

Dyma pam rydyn ni'n gweithredu ar Balesteina.

Dyma ychydig o gwestiynau enghreifftiol y gallwch ofyn i'ch ymgeiswyr i ddarganfod beth fyddant yn ei wneud os cânt eu hethol:

- A wnewch chi ddatgan eich cefnogaeth i, ac addo gwneud popeth o fewn eich gallu pan gewch eich ethol i sicrhau cadoediad brys, llwyr a pharhaol yn Gaza?
- Nododd adroddiad annibynnol gan y Cenhedloedd Unedig a gynhaliwyd ym mis Ebrill nad yw Israel eto wedi darparu unrhyw dystiolaeth ar gyfer ei honiadau bod staff Asiantaeth Rhyddhad a Gwaith y Cenhedloedd Unedig wedi bod yn rhan o ymosodiadau Hydref 7. A wnewch chi ymrwymo i wneud popeth o fewn eich gallu i adfer cyllid y DU i Asiantaeth Rhyddhad a Gwaith y Cenhedloedd Unedig (UNRWA) fel mater o frys?

Darllenwch restr lawn o'n gofynion a'r polisiau rydym yn galw amdanynt yn yr etholiad. Gallwch hefyd argraffu fersiwn PDF i'w gadael gyda'r ymgeisydd etholiad.

Yn ogystal â dwyn sylw at y gofynion hyn yn lleol, gwyddom y gallai fod gennych faterion lleol, cenedlaethol neu ryngwladol eraill yr hoffech ganolbwyntio arnynt yn eich ymgyrch etholiad cyffredinol. P'un a yw hynny'n gwrthwynebu safle echdynnu tanwydd ffosil neu atal ehangu maes awyr lle rydych chi'n byw. Ni waeth beth yw eich ffocws, gallwch ddefnyddio'r cyfle hwn i ymladd dros fyd mwy cyfiawn a thecach.

Sicrhau ymrwymadau

Yn ystod y cyfarfod, mae'n allweddol cael ymrwymadau gan eich ymgeisydd etholiadol. Yn dibynnu ar y pynciau y gwnaethoch ganolbwyntio arnynt a'r

cwestiynau a ofynnwyd gennych, efallai y bydd gennych eisoes ffyrdd o ddwyn eich ymgeiswyr i gyfrif.

Mae sicrhau bod gennych chi gofnod da o'r hyn maen nhw wedi'i ddweud am bob ymgyrch yn bwysig. Gallwch hefyd ofyn iddynt gytuno i gyfarfod yn ystod y 3 mis cyntaf ar ôl iddynt gael eu hethol i sicrhau eich bod yn cael adroddiad ar gynydd.

Ffyrdd eraill y gallwch ofyn i'ch ymgeisydd ddangos cefnogaeth i'r pynciau rydych chi wedi'u trafod:

- Cael tynnu eu llun gyda'r grŵp yn dal placard.
- Rhannu cefnogaeth ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Recordio fideo byr o'r ymgeisydd yn rhannu eu cefnogaeth neu ofyn am ddyfyniad y gallwch ei ddefnyddio yn y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol.
- Os ydych chi'n [cynllunio hystings](#), gofynnwch iddynt a hoffent fod ar y panel.

Cyn eich cyfarfod

Penderfynwch pwy sy'n mynd. Dylai o leiaf dau berson o'r grŵp fod yn bresennol i sicrhau y gall un person gymryd nodiadau tra bod y llall yn siarad. Gofynnwch i gynrychiolwyr o grwpiau lleol eraill rydych chi wedi gweithio gyda nhw o'r blaen i ymuno â'r cyfarfod. Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer dangos ehangder y gefnogaeth i'r materion yn eich cymuned. Mae'n syniad da cytuno ar rolau ymlaen llaw.

Penderfynwch pwy fydd yn siarad ar ba bwynt ar yr agenda a phwy fydd yn gyfrifol am gadw amser.

Ymchwiliwch i'r ymgeisydd ymlaen llaw i wirio a yw'r ymgeisydd wedi gwneud unrhyw ddatganiadau blaenorol ar yr argyfwng hinsawdd neu a oes themâu y mae ganddynt ddiddordeb arbennig ynddynt y gallech eu defnyddio i gael eu sylw. Gallwch ddefnyddio [gwefannau fel Maen nhw'n Gweithio i Chi](#) i helpu. Er enghraifft, os ydynt yn ymddangos yn arbennig o bryderus am yr economi, gallech ganolbwyntio ar gyflogaeth a'r manteision y bydd swyddi gwyrdd yn eu cael. Neu os ydynt wedi siarad am iechyd, gallech dynnu sylw at fanteision iechyd gweithredu ar lygredd aer ac inswleiddio cartrefi.

Os oes angen help arnoch i gasglu data lleol am eich ardal, edrychwch ar ein [hadnodd Cyflwr yr Amgylchedd](#) sy'n dangos data i chi ar sut mae eich ardal leol yn perfformio ar wahanol faterion hinsawdd.

Strwythur y cyfarfod

- Cyflwynwch eich hun a'r grŵp i'r ymgeisydd. Peidiwch â disgwyl iddyn nhw gofio pwy ydych chi a pham rydych chi'n cwrdd â nhw.
- Os yw'n briodol, sefydlwch cyn gynted ag y gallwch faint o amser sydd gennych.
- Ewch drwy ofynion eich ymgyrch a gofynnwch iddyn nhw beth fydden nhw'n ei wneud pe bydden nhw'n cael eu hethol. Anelwch at gael gwahanol bobl, gan gynnwys partneriaid lleol, i siarad ar bob un o ofynion yr ymgyrch. Bydd hyn yn helpu'r ymgeisydd i glywed ystod o leisiau a deall bod ystod eang o bobl ar draws y gymuned yn teimlo ynghylch y materion rydych yn ymgyrchu arnynt. Mae'n ddefnyddiol nodi beth maen nhw'n ei rannu, fel y gallwch chi ddilyn i fyny â nhw a'u dwyn i gyfrif ar y mater os ydyn nhw'n cael eu hethol.
- Ceisiwch sefydlu ymrwymadau a'r camau nesaf gyda'r ymgeisydd. Os ydych chi'n trefnu digwyddiad hystings, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwahodd yr ymgeisydd iddo.
- Tynnwch lun gyda'ch gilydd a chytunwch i gadw mewn cysylltiad.
- Caewch y cyfarfod drwy ddiolch a mynd dros unrhyw bwyntiau gweithredu a gytunwyd.

Ar ôl eich cyfarfod

Rhowch wybod i ni beth ddywedodd eich ymgeiswyr yn ystod y cyfarfod ac a wnaethant unrhyw ymrwymadau penodol. Fel hyn, byddwn yn gallu adeiladu darlun cenedlaethol o'r hyn y mae gwleidyddion yn ei ddweud, a'ch helpu i'w dwyn i gyfrif am unrhyw addewidion a wnaethant i chi.

Anfonwch e-bost at yr ymgeisydd i ddilyn i fyny ar y camau nesaf y cytunwyd arnynt.

Postiwch eich lluniau ar y cyfryngau cymdeithasol a thagio @friends_earth

Os ydych chi'n cael trafferth cwrdd ag ymgeiswyr eraill, gallai tagio nhw eu hannog i gwrdd â chi hefyd. Edrychwch ar ein [canllaw cyfryngau cymdeithasol](#) i ddarganfod sut i wneud y gorau o'r cyfryngau cymdeithasol yn yr etholiad hwn.